**Diffiniadau**

**Beth yw tâl ychwanegol y farchnad?**

Tâl ychwanegol y farchnad yw ychwanegiad at gyflog

**Cam 2: Dadansoddi Data’r Farchnad**

Mae’r Adran AD yn gyfrifol am nodi a dadansoddi sampl briodol a pherthnasol o ddata taliadau’r farchnad lafur er mwyn canfod a ellir cyfiawnhau talu ychwanegiad y farchnad. Bydd y dystiolaeth annibynnol o’r hyn y cesglir data yn amrywio, gan ddibynnu ar yr hyn sy’n berthnasol ar gyfer y swydd benodol a ystyrir. Fodd bynnag, bydd angen data o fan leiaf ddwy ffynhonnell ddibynadwy fel rheol, fel Arolygon Taliadau Blynyddol yr UCEA, Arolygon Data Annibynnol (IDS). Gellir ystyried cyfraddau diwydiant neu gytundebau undebau llafur hefyd. Caiff canlyniadau’r archwiliadau hyn eu cofnodi gan ddefnyddio adran ‘Cam 2’ o Atodiad 1.

Os bydd y dystiolaeth a geir yn dangos bod cyfradd y farchnad yn gyfwerth â gwerth y telerau cyflogi cyffredinol a gynigir gan y Brifysgol, neu’n is na hynny, ni fydd ychwanegiad y farchnad yn briodol a bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr AD neu Uwch

Tynnir Yswiriant Gwladol a threth incwm PAYE o ychwanegiadau’r farchnad ac, yn achos taliadau cyson, didyniadau pensiwn. Bydd ychwanegiadau’r farchnad yn cael eu hystyried wrth gyfrifo’r holl hawliadau statudol megis salwch, cefnogaeth mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu a cholli gwaith. Fodd bynnag, wrth gyfrifo’r holl daliadau eraill, fel goramser, ni chaiff ychwanegia